

Adroddiad Addysg

1. **Trafod addysg a dysgu proffesiynol athrawon yng Nghymru** (Joseph Champion, Gwasanaeth Ymchwil CCC)

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **ymchwiliad i addysg a dysgu proffesiynol athrawon yn 2017**. Ar ôl trafod y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, gwnaeth y Pwyllgor 25 o argymhellion i Lywodraeth Cymru a lluniodd bedwar casgliad.

Mae'r adroddiad wedi'i lunio yng nghyd-destun y diwygiad sylweddol i'r system addysg yng Nghymru. Yn 2015, cyfeiriodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, at y modd y gweithredir yr **adroddiad Addysgu Athrawon Yfory** gan yr Athro Furlong, **Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg** a'r adroddiad **Dyfodol Llwyddiannus** gan yr Athro Donaldson am y cwricwlwm ysgolion, fel "**rhaglen ddiwygio dairochrog**".

Mae'r "diwygio tairochrog" hwn ei hun yn rhan o bolisiau ehangach Llywodraeth Cymru i wella addysg, fel **Cymwys am Oes 2014-2020**. Bwriad Cymwys am Oes, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, oedd codi safonau ysgolion Cymru. Ym mis Medi 2017, ail-lansiodd Kirsty Williams, AYSgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y cynllun, gan ei alw'n **Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017-21**. Mae "datblygu proffesiwn addysg o safon uchel" yn un o "bedwar amcan galluogi" y genhadaeth genedlaethol newydd.

Fel rhan o'i raglen waith barhaus, mae'r Pwyllgor yn cynnal gwaith i **fonitro'r modd y caiff adolygiad Donaldson ei weithredu**, a chyhoeddodd ei sylwadau cychwynnol ym mis Ionawr 2017. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor hefyd am adolygu agweddau eraill ar y rhaglen ddiwygio dairochrog, o ystyried rôl ganolog y proffesiwn addysgu. O ganlyniad, canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar yr agweddau a ganlyn:

- y trefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu presennol;
- rôl addysg gychwynnol i athrawon;
- digonolrwydd y gweithlu ar gyfer y dyfodol; a'r
- safonau proffesiynol newydd i athrawon.

Trafododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mawrth 2018. Yn dilyn y ddadl honno, parhaodd y Pwyllgor i ymchwilio i waith Llywodraeth Cymru ynghylch cefnogi a datblygu'r gweithlu addysgu.

2. **Adroddiad Blynyddol 2016/17 Prif Arolygydd Estyn** (Sian Hughes, Gwasanaeth Ymchwil CCC)

Adroddiad Blynyddol eleni yw'r adroddiad terfynol yng nghylch fframwaith arolygu 2010-2017. Mae'r adroddiad yn ystyried y deilliannau ar gyfer 2016/17, ac yn rhoi trosolwg o'r deilliannau a gafwyd yn ystod y saith mlynedd o dan sylw. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae pob darparwr addysg a hyfforddiant wedi bod yn destun o leiaf un arolwg.

Daeth y cylch arolygu blaenorol o chwe blynedd i ben pan gyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2009-2010. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd canlyniadau PISA ar gyfer 2009, ac yn y pen draw, mae'r cyhoeddiadau hyn wedi arwain at y broses o ddiwygio addysg yn llwyr—proses sy'n parhau hyd heddiw. Mae Adroddiad Blynyddol 2016/17 yn cwmpasu'r cyfnod pan ddechreuwyd y broses o roi'r diwygiadau addysg ar waith. Dywed y Prif Arolygydd, Meilyr Rowlands:

At ei gilydd, mae rhaglen diwygio addysg gydlynol yn bodoli ar gyfer addysg orfodol, sy'n mynd i'r afael â'n prif heriau ac yn osgoi peryglon canlyniadau anfwriadol yn deillio o waith diwygio tameidiog.

Dengys yr adolygiad o'r saith mlynedd ddiwethaf fod nifer o bethau wedi newid a'u bod yn parhau i newid. Mae'r Prif Arolygydd yn gadarnhaol ar y cyfan, ac yn nodi 'bod llawer i ymfalchïo ynddo yn y system addysg yng Nghymru'. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y canfyddiadau arolygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 yn weddol debyg i'r rhai ar gyfer y saith mlynedd diwethaf.

Newid diwylliant

Un o brif negeseuon yr adroddiad yw mai'r duedd fwyaf a welwyd mewn addysg yng Nghymru dros y saith mlynedd diwethaf yw'r **symudiad tuag at ddiwylliant o hunanwella a'r symudiad tuag at fwy o gydweithio**. Mae holl elfennau pecyn Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau addysg - y cwricwlwm, addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol athrawon - yn seiliedig ar system hunanwella. Dyma lle mae rhanddeiliaid allweddol yn y system addysg yn rhannu'r cyfrifoldeb dros wella eu hunain a gwella eraill.

Wyth polisi allweddol

Fel sy'n arferol, mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys sylwadau ar sectorau addysg unigol, fel ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfiawnder ieuencid ac addysg athrawon. Eleni, mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar y cynnydd a wnaed mewn wyth maes polisi penodol dros y cyfnod o saith mlynedd. Dyma rai o ganfyddiadau'r adroddiad:

- Dechreuodd **y Cyfnod Sylfaen** yn 2004/05 ac fe'i cyflwynwyd ar draws Cymru yn 2009/10. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae plant yn dysgu drwy weithgareddau arbrol, a 'chwarae' yw'r cyfrwng ar gyfer dysgu. **Mae'r Adroddiad Blynyddol yn canfod bod gweithredu'r dull hwn wedi bod yn anghyson.**
- Mae ymchwil yn awgrymu nad yw plant yn elwa ar ddysgu ffurfiol tan eu bod yn 6 neu 7 oed. Fodd bynnag, dywed yr adroddiad bod llawer o ysgolion yn defnyddio dulliau addysgu mwy traddodiadol, yn benodol ar gyfer plant 5 i 7 oed, ac yn enwedig ar ôl cyflwyno profion darllen a rhifedd. Fodd bynnag, mae'r **Prif Arolygydd yn nodi bod plant yn gwneud cynnydd da** lle mae'r dull hwn yn cael ei gymhwyso yn unol â'r bwriad.
- Mae datblygu **sgiliau llythrennedd a rhifedd** wedi bod yn un o flaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru ers dechrau'r cylch arolygu, a chyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol**, a gafodd statws statudol ym mis Medi 2013. Mae angen sgiliau llythrennedd da ar ddisgyblion i ganiatáu iddynt gael mynediad at y cwricwlwm cyfan. Mae sgiliau rhifedd yn hanfodol, ac yn galluogi disgyblion i ddefnyddio ffeithiau a sgiliau rhifiadol i ddatrys problemau bywyd go iawn. **Mae'r Prif Arolygydd yn adrodd bod sgiliau llythrennedd disgyblion wedi gwella ac wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae sgiliau rhifedd hefyd wedi gwella, ond maent yn parhau i fod yn flaenoriaeth.**

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** ym mis Medi 2016, a dyma'r agwedd gyntaf ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae cymhwysedd digidol yn un o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd, er nad oes gan y Fframwaith Digidol statws statudol eto. Er bod gwella sgiliau TGCh wedi bod yn un o nodau Llywodraeth Cymru ers 2008, **mae'r Adroddiad Blynyddol yn canfod nad yw cynnydd disgyblion mewn TGCh wedi datblygu ar yr un gyfradd â'r datblygiadau sylweddol a welwyd ym maes technoleg dros y saith mlynedd diwethaf.**
- Mae mynd i'r afael ag **effeithiau anfantais** hefyd wedi bod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a bu nifer o fentrau a strategaethau i gefnogi'r flaenoriaeth hon. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn canfod bod gan ysgolion ffocws cryfach ar fynd i'r afael ag effeithiau anfantais nag oedd ganddynt ar ddechrau'r cylch arolygu. Fodd bynnag, mae'n canfod bod **yr angen i godi safonau ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn tldi yn parhau, gan nad yw eu lefelau cyflawniad gystal â lefelau cyflawniad eu cyfoedion.** Mae ystadegau mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru (mis Rhagfyr 2017) yn dangos bod 41.3 y cant o'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cyrraedd trothwy Lefel 2 (sy'n cyfateb i o leiaf 5 TGAU ar raddau A*-C, neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol) o'i gymharu â 73.6 y cant nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae Estyn hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer ei ymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol.
- Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r **symudiad tuag at gydweithio** yn un o'r tueddiadau mwyaf amlwg a welwyd dros y saith mlynedd ddiwethaf. Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), mae gweithio o ysgol i ysgol yn hwyluso'r broses o gylchredeg gwybodaeth drwy'r system. Mae'n ffordd amgen o gefnogi ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd ac yn ffordd o ddatblygu cyfrifoldeb ar y cyd. Canfu Adroddiad Blynyddol Estyn fod **bron pob ysgol yn rhan o ryw fath o bartneriaeth** ar gyfer gweithio gydag ysgolion eraill. Fodd bynnag, **nid oedd y mwyafrif o ysgolion yn gallu penderfynu a oedd y drefn gweithio o ysgol i ysgol yn effeithio ar safonau disgyblion ac, os felly, sut.**
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg** yn 2010. Mae'r Prif Arolygydd yn adrodd ar addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob sector. Yn ôl y Prif Arolygydd, o fan cychwyn isel, **bu cynnydd yn nifer y gweithgareddau dysgu Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach dros y blynyddoedd diwethaf.** Fodd bynnag, **mae rhy ychydig o ddysgwyr Cymraeg yn parhau â'u hastudiaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn addysg bellach neu mewn dysgu yn y gwaith.** Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwystr sylweddol o ran ehangu'r ddarpariaeth yn y mwyafrif o golegau.
- Mae adroddiad y Prif Arolygydd yn nodi mai **arweinyddiaeth** yw'r ffactor allweddol o ran cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ymhlith dysgwyr. Mae pwysigrwydd arweinyddiaeth hefyd wedi cael ei gydnabod gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a gyhoeddodd y cam o sefydlu academi arweinyddiaeth genedlaethol hyd-braich newydd ym mis Tachwedd 2016. Barn gyffredinol Estyn yw **bod arweinyddiaeth wedi bod yn dda neu'n well mewn tua 75 y cant o ysgolion cynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd. Nid yw'r farn honno wedi newid llawer yn ystod y cylch.** Mae

angen gwella arweinyddiaeth mewn chwarter o'r ysgolion cynradd ac mewn pedwar o bob deg ysgol uwchradd.

Sylwadau pwysig eraill

- Yn yr un modd â'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn ôl y Prif Arolygydd, er bod **llawer o gryfderau mewn rhai meysydd (lleoliadau meithrin, ysgolion arbennig a gynhelir a cholegau addysg bellach) mae amrywioldeb yn parhau i fod yn her yn y rhan fwyaf o sectorau eraill;**
- Dros y cyfnod o saith mlynedd, mae 77 y cant o farnau arolygu wedi bod yn farnau da neu'n well (71 y cant yn dda a 6 y cant yn rhagorol. Mae 23 y cant o farnau wedi bod yn waeth na da (20 y cant yn ddigonol a 3 y cant yn anfoddfaol);
- **Y meysydd addysg sydd gryfaf** ar draws y rhan fwyaf o sectorau yw'r rheini'n ymwneud â **lles dysgwyr, gofal, cymorth ac arweiniad, a'r amgylchedd dysgu;**
- Mae **safonau, addysgu a phrofiadau dysgu, a gwella ansawdd yn gymharol wannach;**
- Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, **mae deilliannau ysgolion cynradd yn well ar gyfartaledd na'r rheini ar gyfer ysgolion uwchradd.** Un o'r prif wahaniaethau yw effaith arholiadau allanol sydd â chysylltiad cryf â systemau atebolrwydd fel y drefn o gategoreiddio ysgolion a mesurau perfformiad ysgolion. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod perygl y gall polisi cofrestru ar gyfer arholiadau a'r cyngor a roddir i ddisgyblion ar ba gymwysterau i'w hastudio gael eu gyrru gan bwysau atebolrwydd. Gall hyn hefyd arwain at **'addysgu at y prawf', a chanolbwyntio gormod ar addysgu technegau arholiadau yn hytrach na darparu addysg eang;**
- ran addysg bellach a dysgu yn y gwaith, mae uno wedi arwain at nifer lai o ddarparwyr mawr. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae nifer y colegau addysg bellach wedi gostwng o 22 i 13, ac mae nifer y darparwyr dysgu yn y gwaith wedi gostwng o 78 i 19. Mae'r timau arweinyddiaeth newydd yn deillio o'r **uno hwn wedi elwa ar gryfderau'r sefydliadau cyfansoddol, ac wedi adeiladu ar fanteision y màs critigol a ddarperir gan y sefydliadau mawr hyn.** Mae deilliannau arolygu wedi gwella'n gyffredinol yn y sectorau hyn dros y cylch arolygu.

Beth y mae Estyn yn ei ystyried wrth arolygu ysgolion a lleoliadau eraill?

Mae Estyn yn defnyddio Fframwaith Arolygu Cyffredin a gyflwynwyd ar ddechrau'r cylch arolygu cyfredol ym mis Medi 2010. Mae'r Fframwaith yn cynnwys tri chwestiwn allweddol ynghylch 'pa mor dda' yw'r deilliannau, y ddarpariaeth, a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn dilyn hynny, mae Estyn yn ffurfio dwy farn gyffredinol am berfformiad cyfredol pob lleoliad a'r rhagolygon ar gyfer gwella perfformiad yn y lleoliadau hynny, a hynny yn ôl graddfa â phedwar pwynt iddi: Rhagorol, Da, Digonol ac Anfoddfaol.

Mae Estyn yn cyhoeddi data ar ei ddeilliannau arolygu. Mae'r adnodd hwn yn darparu manylion ynghylch yr holl farnau arolygu a gyhoeddwyd ers dechrau'r cylch fframwaith arolygu presennol ym mis Medi 2010. Gellir hidlo'r canlyniadau yn ôl sectorau penodol.

A oes newidiadau ar y gweill i'r system arolygu ac i Estyn hefyd?

Cyflwynodd Estyn ddull newydd o arolygu ym mis Medi 2017. Bydd ysgolion, colegau arbenigol annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cael eu barnu o dan bum maes arolygu:

- Safonau
- Lles ac agweddau at ddysgu

- Addysgu a phrofiadau dysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r pwyslais cynyddol ar les yn nodwedd gadarnhaol o'r fframwaith arolygu newydd. Mae hefyd yn nodwedd amlwg o gynllun gweithredu addysg Llywodraeth Cymru, sef Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017.

Bydd darparwyr yn cael eu barnu gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt: **Rhagorol; Da; Digonol ac angen gwelliant; ac Anfoddhaol ac mae angen gwelliant ar frys.**

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Prif Arolygydd fod yr Athro Graham Donaldson wedi'i wahodd i gynnal adolygiad annibynnol o rôl Estyn o ran cefnogi'r broses o ddiwygio ym maes addysg. Cynigiwyd y cam hwn gan Meilyr Rowlands. Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad yn cynnwys sefydlu ffyrdd y gallai cyfraniad Estyn at wella ansawdd addysg yng Nghymru gael ei ymestyn ymhellach, ac amlinellu'r goblygiadau i ofynion gweithredol Estyn yn y dyfodol. Disgwylir i'r Athro Donaldson gyflwyno adroddiad cyn diwedd mis Mehefin.

Disgwylir hefyd i Estyn adrodd eleni ar ddarpariaeth AG yng Nghymru.

3. **Cyhoeddiad newydd gan CYSAGau Cymru: Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o AG**

Mae Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CYSAGau Cymru) wedi cyhoeddi'r canllaw gwerthfawr a chynhwysfawr hwn ar gyfer ysgolion a rhieni. Mae'n rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o addysg grefyddol. Mae'r canllaw yn cynnwys adrannau sydd o gymorth o ran y ddeddfwriaeth; sicrhau bod cyn lleied o sefyllfaoedd â phosib a allai arwain at geisiadau am dynnu plant yn ôl; astudiaethau achos; safbwyntiau gwahanol grwpiau crefyddol a digrefydd ynghylch addysg grefyddol; ystyried a yw ceisiadau'n seiliedig ar resymau rhagfarnllyd; a cheisiadau am dynnu plant yn ôl o ymweld ag addoldai.

Mae'r ddogfen wedi'i chynhyrchu'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n costio £8.99. Gellir cael copiau o Amazon neu Books at Press.

4. **Diwygio'r sector addysg ôl-16.** (Joseph Champion, Gwasanaeth Ymchwil CCC) Ar 5 Rhagfyr

2017, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, ymateb Llywodraeth Cymru i 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig' y papur gwyn a gafodd ei lansio ym mis Mehefin 2017. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Hazelkorn a'r cam cyntaf mewn proses y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn honni a allai arwain at y darn mwyaf oll o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol erioed wedi gorfod ymdrin ag ef...Ond fy mwriad pendant i a'm gobaith yw y gallwn gyrraedd y diwedd cyn tymor y Cynulliad.'

Ar y cyfan, ymddengys bod cynigion Llywodraeth Cymru i ddatblygu sector ôl-16 unedig yng Nghymru wedi cael 'cefnogaeth eang' gan y sector. Byddai'r uniad hwn yn deillio o gyflwyno corff strategol newydd: y comisiwn ymchwil ac addysg drydyddol ar gyfer Cymru (y Comisiwn). Mae rhai materion sy'n destun trafod sef a ddylai'r chweched dosbarth fod yn rhan o'r system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) a hefyd gallu'r sector i wneud ymchwil. Mae'r trafodaethau a'r ymgynghoriadau yn parhau.

5. **Côd Ymarfer EBC ynglŷn ag ymweliad Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.** Ar 16 Ionawr, 2018 cynhaliwyd cyfarfod Skype rhwng y Parchg W. Bryn Williams, y Parchg Gwyn Rhydderch, Rheinallt Thomas, Ffion Williams, Nia Williams, Sarah a minnau, i greu dogfen ganllaw fer (a amgaeir) ar gyfer gweinigodion a gweithwyr eglwysig sy'n dymuno ymweld ag ysgolion a chyflwyno safbwyntiau ffydd yno. Cytunwyd y byddai'r ddogfen yn cael ei threialu a'i diwygio os byddai angen yn ddiweddarach.
6. **Mae grŵp *Wales Humanists* yn galw am aelodaeth lawn i gorff cynghori ar addysg grefyddol, Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG),** sy'n goruchwyllo'r pwnc mewn ysgolion. Yn ôl CYSAGau Cymru, y broblem yw dogfen Cylchlythyr lywodraethol (1994) sy'n nodi mai ond grwpiau crefyddol all fod yn aelodau llawn. Gan nad ydyn nhw'n grŵp crefyddol, dim ond fel aelod cyfetholedig y mae dyneiddwyr yn gallu cyfrannu, ac nid ydyn nhw'n cael pleidlais lawn. Dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn asesu'r sefyllfa.
7. **Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru (CERhC)**
Fel cynrychiolydd Addysg CERhC, mynychais gyfarfod preswyl deuddydd y Free Church Education Committee (FCEC) yng nghanolfannau Westhill a Woodbrooke, Birmingham ar 14/15 Mawrth 2018. Cafodd yr eitemau agenda canlynol eu cyflwyno neu eu trafod:
- Cyflwyniad gan y siaradwr gwadd, Dr Cheron Byfield, sylfaenydd King Solomon I International Business School, Birmingham. Roedd cyflwyniad Dr Byfield yn canolbwyntio ar ei hymgais lwyddiannus i sefydlu Ysgol Rydd newydd mewn ardal ddifreintiedig o Birmingham;
 - Trafodaeth undydd, mewn parau ac mewn sesiwn lawn, o ddogfen ddrafft y Free Churches Group (FCG): *Life in All its Fullness, The Free Churches and Schools: a report and recommendations from the FCEC*. Tynnais sylw at y ffaith fod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu o safbwynt Lloegr yn unig. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i mi gyflwyno'r adroddiad a'r mater hwn i aelodau CERhC i ystyried y posibiladau o ran cynnwys safbwynt Cymreig yn y ddogfen sy'n bod eisoes neu gyflwyno dogfen arall yn canolbwyntio ar Gymru;
 - *REforming Christianity* – Adnodd newydd ar gyfer CA 2-4. Gweler www.freechurches.org.uk (cyfrinair: education). Cafodd yr adnodd hwn ei gomisiynu gan yr FCG a'r Eglwys Fethodistaidd yn Lloegr, o dan nawdd y Westhill Endowment a'u cynhyrchu mewn cydweithrediad ag RE Today Services. Roeddem ni (CERhC) wedi trafod a nodi ein diddordeb llynedd o ran cyfieithu ac addasu'r adnodd hwn i'r Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn trafodaeth yn Birmingham cytunwyd, os oedd aelodau CERhC dal o blaid y datblygiad hwn, y byddai'n rhaid inni wneud cais am Gyllid Grant ar gyfer y gwaith. Byddai hynny'n cynnwys arian i dalu rhywun cymwys mewn AG i gyfieithu ac addasu'r adnoddau.
8. Anfonais **E-lythyrau Dysg Llywodraeth Cymru ac adroddiadau Estyn** at y Parch. Jeff Williams.